


# CA2 - Blwyddyn 3 a 4

## Côt Law Siôn Corn



Rhagfynegi
5. Beth yw ystyr y gair 'rhagfynegi'
'Dyfalu' yw ystyr y gair rhagfynegi
mewn arbrawf gwyddonol
6. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y côt law orau i Siôn Corn?
Mae'r polyester yn berffaith i gôt law!
7. Egluro: Pam ydych chi'n dweud hynny?
Oherwydd mae o'n gwrth-ddŵr, a mae o'n gwead da!
8. Eglurwch beth mae'r term 'gwrth-ddŵr' yn ei olygu:
Mae'r term 'gwrth-ddŵr' yn golygu 'does yna ddim dŵr yn dod trwyddo
Amser arbrofi
Wrth gynnal arbrawf mae'n rhaid cadw rhai pethau yr un fath o hyd, fel ein bod yn gallu cymharu pethau'n deg.
Yr enw ar hyn yw cynnal Prawf Teg.
Heddiw byddwn y cadw'r cyfaint dŵr sy'n cael ei dywallt ar y deunyddiau yr un fath sef 50ml. Hefyd mi fydd yr amser yn aros yr un peth, sef 1 munud.
Y deunyddiau yw'r pethau fydd yn newid yn yr arbrawf.


Dydd Mawrth
Tachwedd 30ain
Gwyddoniaeth Gwych
Pa ddefnydd ydi'r gorau i wneud côt law i Siôn Corn?
D.D.
Defnyddio y pethau rydw i'n eu gwybod i'm helpu i ddyfalu canlyniad.
M.P.L.I.
• Gallu cymharu ac egluro'r gwahaniaeth rhwng gwahanol ddeunyddiau.
• Dod i ddeall bod rhai deunyddiau yn fwy gwrth-ddŵr nac eraill.
• Cadw'r bwrdd yn sych.
1. Daliwch y deunydd at y golau.
Ydych chi'n gallu gweld drwy'r defnydd o gwbl?
polyester glas: Nac ydw
gwlân: Ydw
cotwm llwyd: Ydw
denim: Nac ydw
2. Pa un o'r deunyddiau yw'r un mwyaf tyllog?
(tyllog = gyda'r mwyaf o dyllau)
Gwlan
3. Beth yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y polyester a'r denim?
Mae'r denim yn ymestyn, mae'r polyester yn denau.
4. Beth yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y cotwm a'r gwlân?
Mae'r cotwm yn denau, mae'r gwlan yn dew.


JiT5
Cot law Sion Corn Gwenno Hana a Mared


| Deunyddiau | Mililitrau |
|---|---|
| Gwlan | 20 |
| Denim | 20 |
| Cotwm llwyd | 50 |
| Polyestr glas | 0 |


Mae'r graff yn dangos fod mwy o ddŵr wedi dod trwy'r cotwm llwyd. Nid oes diferyn wedi dod trwy'r polyestr glas a felly y polyestr glas yw'r gorau i wneud gôt law i Siôn Corn. Mae Denim a Gwlan yn gyfartal oherwydd fod y ddau yn 20 mililitrau o ddŵr wedi dod trwy'r ddau.
Ardderchog. Wedi llwyddo i ddod i gasgliad llwyddiannus a defnyddio terminoleg wyddonol


Tynnwch lun o Siôn Corn yn ei gôt newydd, yn y glaw:
Hyfryd.

## Y Dasg

Cynnal ymholiad **Prawf Teg**, gyda sampl o ddefnyddiau gwahanol, i weld pa un yw'r mwyaf gwrth-ddŵr i greu côt law i Siôn Corn. Byddwn yn tywallt dŵr dros y samplau a mesur faint o ddŵr aiff drwy'r defnydd. Byddwn yn defnyddio biceri ac offer mesur gwyddonol. Byddwn yn rhagfynegi canlyniad a'i wiro yn erbyn y dystiolaeth. Yna, cofnodi'r data ar JiT5 ar ffurf graff bar i ddod â'r elfen ddigidol TGCh i'r gwaith. I gloi'r wers byddwn yn tynnu llun Siôn Corn yn ei gôt law newydd gan ddod ag elfen gelfyddydol i'n gwers wyddoniaeth.













Karen MacIntyre Huws 2021